IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

DYDD GWENER, 15 MEDI 2017

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Jackie Parry(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Mackie a/ac Williams |

3 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

4 : CAIS AM AMRYWIO TRWYDDED SAFLE - COOP LLANDAF

| | |
|---|---|
| Ymgeiswyr: | Richard Arnott, Cyfreithiwr – Ward Hadaway, Newcastle<br>Matthew Russell – Rheolwr, Co-Op Ffordd Llantrisant, Caerdydd |
| Parti â Diddordeb: | Y Cynghorydd Lisa Ford, Cynghorydd Ward Y Tyllgoed |

Mae cais i amrywio Trwydded Safle wedi'i dderbyn gan CO-Operative Group Food Limited mewn perthynas â Co-Op, Ffordd Llantrisant, Llandaf, Caerdydd, CF5 2W.

Mae'r drwydded yn caniatáu'r canlynol ar hyn o bryd:

- Cyflenwi alcohol i'w yfed oddi ar y safle:
  O ddydd Llun i ddydd Sul: 07:00 tan 23:00

- Darparu lluniaeth hwyr y nos:
  O ddydd Llun i ddydd Sul: 23.00 tan 00:00

Gwneir y cais i amrywio i gynnig y canlynol:

- Cyflenwi alcohol i'w yfed oddi ar y safle:
  24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos

- Darparu lluniaeth hwyr y nos:
  O ddydd Llun i ddydd Sul: 23:00 tan 05:00

Atodwyd copi o'r amodau ychwanegol gan yr ymgeisydd i fodloni'r amcanion trwyddedu i'r adroddiad.

Cafodd sylwadau eu derbyn mewn perthynas â'r cais ac atodwyd copïau ohonynt i'r adroddiad.

<u>Sylwadau Partïon â Diddordeb :</u>

Dywedodd y Cynghorydd Ford bod nifer o breswylwyr yng nghyffiniau'r safle wedi cysylltu â hi yn mynegi pryderon y byddai estyn yr oriau'n achosi problemau mwy yn yr ardal - mae'r safle yn agos iawn at nifer mawr o eiddo preswyl; mae problemau parhaol gydag ymddygiad gwrthgymdeithasol, problemau y mae'r Heddlu yn

ymwybodol amdanynt, a sbwriel yn cael ei daflu a'i adael yn y strydoedd amgylchynol.

Sylwadau'r Ymgeisydd:

Rhoddodd Mr Arnott wybodaeth gefndirol i Aelodau'r Is-bwyllgor ynghylch y cwmni a dywedodd fod 5 safle tebyg eraill yn yr ardal wedi'u trwyddedu i werthu alcohol yn ystod yr un cyfnod ar hyn o bryd.

Mae'r Trwydded Safle gyfredol wedi bod ar waith er 2013 ac nid oes unrhyw dystiolaeth wedi'i rhoi gan yr Heddlu, nad ydynt yn gwrthwynebu'r amrywiad, fod unrhyw faterion yn ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ar y safle a gaiff eu hachosi o ganlyniad i gymeradwyo'r drwydded, hefyd nid oes unrhyw dystiolaeth wedi'i llunio i gael gwybod y byddai'r oriau mwy yn golygu na chaiff yr amcanion trwydded eu hybu. Hefyd dywedodd Mr Arnott nad yw'r wybodaeth wedi'i chyflwyno gan y Cynghorydd Ford a'r sylwadau ysgrifenedig wedi atodi i'r adroddiad yn gyfystyr â thystiolaeth.

Rhoddwyd llenyddiaeth i'r Aelodau yn amlinellu gwybodaeth Sefydlu a gwybodaeth hyfforddi a roddir i staff. Mae gan bob rhanbarth Reolwr Risg i sicrhau bod asesiadau'n cael eu gwneud; yr eir i'r afael ag unrhyw faterion ac i gydgysylltu â'r Awdurdodau Statudol pe bai unrhyw faterion.

Dywedodd Mr Arnott y bydd y siop yn cau am 11.00pm bob dydd a gwneir yr holl fusnes trwy'r gorddrws nos. Bydd 3 aelod o staff yn gweithio bob nos a'r rheolwr fydd un o'r rhain.

PENDERFYNNODD YR IS-BWYLLGOR:

Wedi ystyried yr holl wybodaeth ac yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003, Canllaw Adran 182 a Pholisi Datganiad Trwyddedu yr Awdurdod Trwyddedu, gymeradwyo'r cais.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.55 am